| PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | **Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod 2026** |
|---|---|

**NODWCH OS GWELWCH YN DDA!**

**Mae canllawiau ar gyfer Portffolio Celfyddyd Gain, Ffiseg, Mathemateg a Mathemateg Bellach ar gael ar dudalenau 7-13**

## Beth yw'r camau nesaf?

- **Trafodwch drefniadau eich arholiad gyda'ch Swyddog Arholiadau**

Dylech fod eisoes wedi cael sgwrs gyda'ch swyddog arholiadau ynghylch amserlen y diwrnod arholiad. Noder y bydd y papurau arholiad yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at eich swyddog arholiadau, a byddant yn rhoi copi papur i chi ar ddiwrnod yr arholiad.

- **Actifadu eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth**

Dylech dderbyn ebost gennym ar **Ddydd Mawrth, 27 Ionawr,** yn cynnwys gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i actifadu eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth. Bydd y côd actifadu yn cael ei ddanfon i'r cyfeiriad ebost a roddwyd ar eich ffurflen gais. Bydd angen i chi actifadu eich cyfrif **cyn dyddiad yr arholiadau. Wedi i chi actifadu eich cyfrif, nodwch y manylion mewngofnodi a'r cyfrinair oherwydd bydd eu hangen ar ddiwrnod yr arholiadau.**

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair, e-bostiwch ysgoloriaethau@aber.ac.uk.

- **Fe ddylech ymarfer cyflwyno papur arholiad cyn y diwrnod arholiadau. Bydd angen i chi wneud hyn erbyn 4pm, dydd Gwener 30 o Ionawr 2026** (gwelir canllawiau isod).

## Cyn yr arholiad: ymarfer cyflwyno

Bydd man ymarfer cyflwyno ar gael i chi yr wythnos sy'n dechrau ar 26 Ionawr 2026 ar y Mudiad Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod.

Rydym yn argymell eich bod yn ceisio uwchlwytho dogfen ymarfer i'r man cyflwyno fel y gallwch sicrhau bod gennych y mynediad cywir **cyn 4pm, dydd Gwener, 30 Ionawr**.

Os yw'n bosibl, dylech wneud yr ymarfer cyflwyno hwn ar y cyfrifiadur y byddwch chi'n ei ddefnyddio ar gyfer yr arholiad. Noder ei bod hi'n rhaid i'r ddogfen ymarfer fod ag o leiaf 20 gair er mwyn iddi gael ei phrosesu gan Turnitin. I gael gwybodaeth am sut i gyflwyno a chael mynediad i'r man ymarfer cyflwyno, cyfeiriwch at y canllawiau 'Sut i gyflwyno eich papurau arholiad' isod.

Noder na fydd y ffeiliau rydych chi'n eu huwchlwytho i'r man ymarfer cyflwyno yn cael eu gweld na'u marcio.

## Ar ddiwrnod yr Arholiad

Byddwch yn cael copi caled o'r papur arholiad gan eich Swyddog Arholiadau. Peidiwch â chysylltu â'r we nes bod yr arholiad wedi gorffen a'ch bod yn barod i gyflwyno eich papur.

Rhaid cwblhau'r holl gyflwyniadau ar gyfer y pynciau hyn **ym mhresenoldeb goruchwyliwr**.

## Sut i gyflwyno eich papurau arholiad

1. Ar gyfer cyflwyno ar ddiwrnod yr arholiad, agorwch ddogfen Word ar eich cyfrifiadur, a chadw'r ddogfen yn syth gan enwi'r ffeil yn y fformat canlynol (CYFENW_ENW CYNTAF_PWNC). Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich dogfen yn rheolaidd.


   Os ydych chi'n cyflwyno papur ymarfer, sicrhewch fod y ddogfen yn cynnwys o leiaf 20 gair fel y gall Turnitin ei phrosesu.

2. Ar frig y dudalen nodwch yn glir: eich enw llawn, ysgol a theitl llawn y pwnc.

3. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhifo/labelu eich atebion yn glir (e.e. 'Cwestiwn 1A').


4. Pan fyddwch yn barod i gyflwyno eich papur arholiad, agorwch borwr ar eich peiriant (Chrome neu Firefox) a theipiwch blackboard.aber.ac.uk, mewngofnodwch i Blackboard gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddarparwyd i chi.

5. Fel rhan o'r wybodaeth i fewngofnodi, mae'n bosib y byddwch yn gweld sgrîn '**More Information required**', fel isod:





6. Cliciwch ar **Skip for now (14 days until this is required)**. Os nad ydych yn gweld y sgrîn hwn, popeth yn iawn, ewch  ymlaen i'r cam nesaf.


7. Dewiswch **Mudiadau** o'r ddewislen ar y chwith.




8. Mae dau wedd bosibl yn Blackboard, os nad yw eich sgrîn yn edrych fel y llun isod, cliciwch ar yr eicon gwedd rhestr gyda thair blwch a llinell wen (gweler ar y dde):




Cliciwch ar '[Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod - Scholarships & Merit Awards 2026'](Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod - Scholarships & Merit Awards 2026):




9. Ar ôl agor y **Mudiad** gallwch gyflwyno eich gwaith. Os ydych yn cyflwyno eich atebion yn y Gymraeg cliciwch ar y ffolder **Arholiad Ar-lein (Cymraeg)**. Os ydych yn cyflwyno yn Saesneg cliciwch ar y ffolder **Online Exam (English).**

10. Os ydych chi'n Ymarfer Cyflwyno, dewiswch **Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission** a dewis naill ai Turnitin: Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission neu Blackboard Assignment: Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission.





11. Byddwch yn gweld nifer o fannau cyflwyno.


12. Ewch i'r man cyflwyno cywir ar gyfer eich pwnc. Er enghraifft:





13. Cliciwch ar y **Man Cyflwyno Turnitin** a bydd ffenestr newydd yn agor. Cliciwch **Lansio.**





14. Dewiswch **Upload Submission**




15. Bydd y ffenestr lanlwytho ffeil yn agor:




16. Gallwch lusgo a gollwng eich ffeil i'r man cyflwyno, neu dewiswch **Choose file** i chwilio drwy eich storfa ffeiliau. Wedi darganfod y ffeil cywir, cliciwch ar 'Open'.
17. Bydd y **Submission Title** yn llenwi'n awtomatig gydag enw eich ffeil. Gallwch newid hwn drwy ddileu'r testun ac ailenwi'r ffeil os dymunwch.
18. Dewiswch **Upload and Review**
19. Bydd eich ffeil yn lanlwytho a byddwch yn gallu gweld rhagolwg o dudalen gyntaf y cyflwyniad:




20. Os ydych chi'n hapus mai dyma'r ffeil gywir, cliciwch **Submit to Turnitin**.
21. Gwnewch yn siŵr fod eich papur wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Dylech gael y neges ganlynol:




**NODER: Dylech lawrlwytho eich derbyniad digidol** trwy ddefnyddio'r ddolen a ddangosir yn y ddelwedd uchod a'i gadw fel tystiolaeth o'ch cyflwyniad. Os nad ydych yn gweld y neges werdd, gofynnwch i'ch goruchwyliwr am gymorth.

22. Allgofnodwch o Blackboard.




# Arfer Da yn yr Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod:

Sicrhewch eich bod yn darllen [Polisi ar Ymddygiad Da ac Annheg ar gyfer yr Arholiadau.]() Byddwch yn ymwybodol bod Turnitin yn cynhyrchu 'adroddiad tebygrwydd' a fydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o debygrwydd rhwng eich gwaith ac unrhyw waith a gyhoeddwyd yn flaenorol (gan gynnwys ffynonellau rhyngrwyd). Bydd y Bwrdd Arholi yn ymchwilio i unrhyw debygrwydd o'r fath.

**Canlyniadau:** Bydd canlyniadau'n cael eu e-bostio i ymgeiswyr a'u Swyddog Arholiadau o fewn 4–6 wythnos ar ôl dyddiad yr arholiad. Noder nad ydym yn darparu marciau, adborth na phapurau arholiad wedi'u cwblhau.

| | |
|---|---|
| PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872 | **Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod gyda Blackboard Assignment 2026** |

**NODWCH OS GWELWCH YN DDA!** Mae'r canllawiau isod ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau mewn un neu fwy o'r pynciau canlynol: **Celfyddyd Gain (Portffolio); Ffiseg; Mathemateg; Mathemateg Bellach**. Ar gyfer pynciau eraill, ewch i dudalennau 2-6.

Bydd myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau **Ffiseg, Mathemateg** a **Mathemateg Bellach** yn cwblhau'r arholiad ar bapur ac yn cyflwyno dogfen wedi'i sganio i Blackboard Assignment.

Gofynnir i fyfyrwyr sy'n cymryd y **Celfyddyd Gain (Portffolio)** lanlwytho eu cyflwyniadau portffolio i Blackboard Assignment. Cefnogir amrywiaeth o fathau o ffeiliau, gan gynnwys powerpoint a pdf.

## Beth yw'r camau nesaf?

- **Trafodwch drefniadau eich arholiad gyda'ch Swyddog Arholiadau**

Dylech fod eisoes wedi cael sgwrs gyda'ch swyddog arholiadau ynghylch amserlen y diwrnod arholiad. Noder y bydd y papurau arholiad yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at eich swyddog arholiadau, a byddant yn rhoi copi papur i chi ar ddiwrnod yr arholiad.

- **Actifadu eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth**

Dylech dderbyn e-bost gennym ar **Ddydd Mawrth, 27 Ionawr**, yn cynnwys Gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i actifadu eich cyfrif TG Prifysgol Aberystwyth. Bydd y côd actifadu yn cael ei ddanfon i'r cyfeiriad ebost a roddwyd ar eich ffurflen gais. Bydd angen i chi actifadu eich cyfrif **cyn dyddiad yr arholiadau. Wedi i chi actifadu eich cyfrif, nodwch y manylion mewngofnodi a'r cyfrinair oherwydd bydd arnoch eu hangen ar ddiwrnod yr arholiadau.**

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair, e-bostiwch ysgoloriaethau@aber.ac.uk.

- **Fe ddylech ymarfer cyflwyno papur arholiad cyn y diwrnod arholiadau. Bydd angen i chi wneud hyn erbyn 4pm, dydd Gwener, 30ain o Ionawr 2026** (gwelir canllawiau isod).

## Cyn yr arholiad: ymarfer cyflwyno

Bydd man ymarfer cyflwyno ar gael i chi yr wythnos sy'n dechrau ar 26 Ionawr 2026 ar y Mudiad Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod. Rydym yn argymell eich bod yn

ceisio uwchlwytho dogfen ymarfer i'r man cyflwyno fel y gallwch sicrhau bod gennych y mynediad cywir **cyn 4pm, dydd Gwener, 30 Ionawr**.

Os yw'n bosibl, dylech wneud yr ymarfer cyflwyno hwn ar y cyfrifiadur y byddwch chi'n ei ddefnyddio ar gyfer yr arholiad. I gael gwybodaeth am sut i gyflwyno a chael mynediad i'r man ymarfer cyflwyno, cyfeiriwch at y canllawiau 'Sut i gyflwyno eich papurau arholiad' isod.

Noder na fydd y ffeiliau rydych chi'n eu huwchlwytho i'r man ymarfer cyflwyno yn cael eu gweld na'u marcio.

## Ar ddiwrnod yr arholiad

Byddwch yn cael copi caled o'r papur arholiad gan eich Swyddog Arholiadau. Peidiwch â chysylltu â'r we nes bod yr arholiad wedi gorffen a'ch bod yn barod i gyflwyno eich papur. Rhaid cwblhau'r holl gyflwyniadau ar gyfer y pynciau hyn **ym mhresenoldeb goruchwyliwr**.**Noder, nid oes papur arholiad ar ffurf copi papur ar gyfer ymgeiswyr Portffolio Celfyddyd Gain.** Cysylltir ag ymgeiswyr sy'n cyflwyno portffolios digidol ymlaen llaw gyda manylion y dasg portffolio.

## Sut i gyflwyno eich papurau arholiad

Bydd myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau **Ffiseg, Mathemateg** a **Mathemateg Bellach** yn cael copi caled o'r papur arholiad gan eu Swyddog Arholiadau. Bydd y papurau hyn yn cael eu casglu gan oruchwylwyr, eu sganio a'u hanfon drwy e-bost atoch, fel y gallwch gyflwyno'r copïau wedi'u sganio trwy Blackboard Assignment. **Peidiwch â chysylltu â'r we nes bod yr arholiad wedi gorffen a'ch bod yn barod i gyflwyno eich papur.**

Bydd angen i chi:

1. Ar gyfer cyflwyno ar ddiwrnod yr arholiad, agorwch ddogfen Word ar eich cyfrifiadur, bydd eicon ar y pen fwrdd, a chadw'r ddogfen yn syth gan enwi'r ffeil yn y fformat canlynol (CYFENW_ENW CYNTAF_PWNC).

   Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw eich dogfen yn rheolaidd. Os ydych yn cyflwyno papur ymarfer, cadwch y ddogfen fel (CYFENW_ENW CYNTAF_YMARFER).

2. Ar frig y dudalen nodwch yn glir: eich enw llawn, ysgol a theitl llawn y pwnc.


3. Ar gyfer myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau Ffiseg, Mathemateg a Mathemateg Bellach, pan fyddwch yn barod i gyflwyno eich atebion, bydd y goruchwyliwr yn casglu eich gwaith, yn ei sganio a'i ebostio atoch er mwyn i chi gyflwyno'r ddogfen gyda Blackboard Assignment ym mhresenoldeb y goruchwyliwr.

4. Ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis cyflwyno Portffolio, byddwch wedi creu eich e-folio o flaenllaw ac ebostio copi i'ch hun.

5. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhifo/labelu eich atebion yn glir (e.e. 'Cwestiwn 1A').


6. Pan fyddwch yn barod i gyflwyno eich papur arholiad, agorwch borwr ar eich peiriant (Chrome neu Firefox) a theipiwch [blackboard.aber.ac.uk](blackboard.aber.ac.uk), mewngofnodwch i [Blackboard](Blackboard) gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddarparwyd i chi.

7. Fel rhan o'r wybodaeth i fewngofnodi, mae'n bosib y byddwch yn gweld sgrîn '**More Information required**', fel isod:





8. Cliciwch ar 'Skip for now (14 days until this is required)'. Os nad ydych yn gweld y sgrîn hon, popeth yn iawn, ewch ymlaen i'r cam nesaf.

9. Dewiswch **Mudiadau** o'r ddewislen ar y chwith.





10. Mae dwy wedd bosib yn Blackboard, os nad yw eich sgrîn yn edrych fel y llun isod, cliciwch ar yr eicon gwedd rhestr gyda thair blwch a llinell wen (gweler ar y dde):

11. Cliciwch ar '[Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod - Scholarships & Merit Awards 2026'](Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod - Scholarships & Merit Awards 2026):




12. Ar ôl agor y **Mudiad** gallwch gyflwyno eich gwaith. Os ydych yn cyflwyno eich atebion yn y Gymraeg cliciwch ar y ffolder **Arholiad Ar-lein (Cymraeg)**. Os ydych yn cyflwyno yn Saesneg cliciwch ar y ffolder **Online Exam (English)**.

13. Os ydych chi'n Ymarfer Cyflwyno, dewiswch **Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission** a dewis nail ai Turnitin: Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission neu Blackboard Assignment: Ymarfer Cyflwyno / Practice Submission.





14. Byddwch yn gweld nifer o fannau cyflwyno.

15. Ewch i'r man cyflwyno cywir ar gyfer eich pwnc. Er enghraifft:





16. Cliciwch ar y **Man Cyflwyno Blackboard Assignment** a bydd ffenestr **Manylion a gwybodaeth** yn agor. Cliciwch ar **Gweld y cyfarwyddiadau** i gyflwyno (a gweld cyfarwyddiadau).





**17.** Cliciwch ar y blwch o dan y pennawd **Cyflwyniad**





18. Gallwch lusgo a gollwng eich ffeil i'r blwch cyflwyniad, neu dewiswch yr **eicon clip papur** i chwilio drwy eich storfa ffeiliau.




19. Wedi darganfod y ffeil cywir, cliciwch ar '**Open'**.




20. Cadarnhewch neu newidiwch enw arddangos y ffeil a chliciwch ar **Cadw**. Bydd rhagolwg o'r ddogfen yn ymddangos ar eich sgrîn.




21. Cliciwch ar y botwm **Cyflwyno** yng nghornel isaf y dudalen ar y dde.

22. I gadarnhau eich bod yn hapus i gyflwyno eich ffeil, cliciwch **Cyflwyno** eto.



23. Wedi cyflwyno byddwch yn derbyn neges i gadarnhau cyflwyniad llwyddiannus.




**NODER: Dylech lawrlwytho eich derbyniad digidol** trwy ddefnyddio'r botwm **Lawrlwytho** a ddangosir yn y ddelwedd (gweler ar y dde) a'i arbed fel tystiolaeth o'ch cyflwyniad. Os nad ydych yn gweld y ffenestr hon, gofynnwch i'ch goruchwyliwr am gymorth.




24. Allgofnodwch o Blackboard.

## Arfer Da yn yr Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod:

Sicrhewch eich bod yn darllen [Polisi ar Ymddygiad Academaidd Da ac Annheg ar gyfer yr Arholiadau](). Byddwch yn ymwybodol bod Turnitin yn cynhyrchu 'adroddiad tebygrwydd' a fydd yn tynnu sylw at enghreifftiau o debygrwydd rhwng eich gwaith ac unrhyw waith a gyhoeddwyd yn flaenorol (gan gynnwys ffynonellau rhyngrwyd). Bydd y Bwrdd Arholi yn ymchwilio i unrhyw debygrwydd o'r fath.

**Canlyniadau:** Byddwn yn e-bostio'r canlyniadau i ymgeiswyr ac i Swyddogion yr Arholiadau o fewn 4-6 wythnos ar ôl diwrnod yr arholiad. Noder, nid ydym yn darparu marciau, adborth na phapurau arholiad wedi'u cwblhau.